# Ysgol Aberconwy

# Polisi Cais Gwrthrych am Wybodaeth

| Dogfen Bolisi Rhif : 1 | RHIFYN: 5 |
|---|---|

**CYMERADWYWYD Y POLISI HWN GAN Y CORFF LLYWODRAETHU CYFAN**

**Llofnod:**

**Dyddiad: 8/10/24**

**Dyddiad adolygu : 1/10/27** **Cyswllt TA : KB**

**Pwrpas**
Mae'r ddogfen hon yn nodi polisi'r Ysgol ar gyfer delio â cheisiadau am fynediad at wybodaeth o dan y ddeddfwriaeth Diogelu Data gyfredol.

**Beth yw gwybodaeth bersonol?**
Mae data personol yn golygu unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â pherson naturiol adnabyddedig neu adnabyddadwy ('gwrthrych y data'); person naturiol adnabyddadwy yw rhywun yn gellir eu hadnabod, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn benodol trwy gyfeirio at ddynodydd megis enw, rhif adnabod, data lleoliad, dynodydd ar-lein neu at un neu ragor o ffactorau sy'n benodol i hunaniaeth gorfforol, ffisiolegol, enetig, feddyliol, economaidd, ddiwylliannol neu gymdeithasol y person naturiol hwnnw.

**Deddfwriaeth Diogelu Data**
Mae deddfwriaeth Diogelu Data yn rhoi'r hawl i unigolion wybod pa wybodaeth a gedwir amdanynt. Mae'n darparu fframwaith i sicrhau bod gwybodaeth bersonol yn cael ei thrin yn briodol.
Mae'r ddeddfwriaeth yn gweithio mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, mae'n nodi bod yn rhaid i unrhyw un sy'n prosesu gwybodaeth bersonol gydymffurfio â chwe egwyddor, sy'n sicrhau bod gwybodaeth bersonol yn:

- Cael ei phrosesu'n deg ac yn gyfreithlon ac mewn modd tryloyw
- Cael ei phrosesu at ddibenion penodol, eglur a chyfreithlon
- Ddigonol, yn berthnasol ac yn gyfyngedig i'r hyn sy'n angenrheidiol
- Fanwl gywir ac wedi'i diweddaru lle bo angen
- Cael ei chadw ar ffurf sy'n caniatáu adnabod gwrthrychau y data am gyfnod nad yw'n hirach nag sy'n angenrheidiol
- Cael ei phrosesu mewn modd sy'n sicrhau diogelwch priodol y data personol.

Yn ail, mae'n rhoi hawliau pwysig i unigolion, gan gynnwys:

- Hawl i fynediad
- Hawl i gywiro
- Hawl i ddileu (hawl i gael eich anghofio)
- Hawl i gyfyngu ar brosesu
- Hawl i gludadwyedd data
- Hawl i wrthwynebu
- Hawl ynghylch gwneud penderfyniadau awtomataidd, gan gynnwys proffilio.

**Mae'r polisi hwn yn ymdrin â hawl mynediad yn unig.**

**Beth yw polisi cyffredinol yr Ysgol ynghylch darparu gwybodaeth?**
Rydym yn croesawu'r hawliau mynediad at wybodaeth a nodir yn y ddeddfwriaeth Diogelu Data gyfredol. Rydym wedi ymrwymo i weithredi'n agored ac i fodloni pob cais rhesymol am wybodaeth nad ydynt yn destun eithriadau penodol.

**Beth yw cais gwrthrych am wybodaeth?**
Cais gwrthrych am wybodaeth yw cais ysgrifenedig am wybodaeth bersonol (a elwir yn ddata personol) a gedwir am unigolion gan yr Ysgol. Yn gyffredinol, mae gan unigolion yr hawl i weld pa

wybodaeth bersonol sydd gennym amdanynt, mae ganddynt hawl i gael disgrifiad o'r wybodaeth, gael gwybod ar gyfer beth y defnyddiwn y wybodaeth, i bwy y gallem drosglwyddo'r wybodaeth, ac unrhyw wybodaeth a allai fod gennym am ffynhonnell y wybodaeth.

**A oes angen cais gwrthrych am wybodaeth i gael mynediad at unrhyw wybodaeth?**
Bydd Cofnod Addysgol disgybl yn cynnwys copïau o'r adroddiadau blynyddol gyda chopïau o gofnod ymddygiad a chofnod presenoldeb disgybl. Bydd adroddiad blynyddol y disgybl i rieni yn cynnwys gwybodaeth am gynnydd cyffredinol y disgybl, eu cynnydd ym mhob pwnc a gweithgaredd a astudiwyd a'u cofnod presenoldeb. Ni fyddai angen cwblhau cais gwrthrych am wybodaeth ar gyfer y wybodaeth hon gan y bydd yn cael ei rhannu â'r sawl sydd â CP fel mater o drefn.

Dylid nodi hefyd y gallai'r wybodaeth hon gael ei rhannu hefyd â'r rhai sydd â buddiant dilys heb gais gwrthrych am wybodaeth. Mae enghreifftiau o amgylchiadau o'r fath yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol :

- Pan fo disgybl dan ystyriaeth i gael eu derbyn i ysgol arall, gall yr ysgol honno wneud cais am gopi o gofnod addysgol y plentyn a bydd y Pennaeth yn ei drosglwyddo yn rhad ac am ddim cyn pen 15 niwrnod. Bydd y cofnodion a ddarperir yn cynnwys canlyniadau unrhyw asesiadau o gyflawniadau'r disgybl.
- Pan fydd plentyn yn newid ysgol, rhaid anfon ffeil drosglwyddo gyffredin wedi'i chwblhau i'r ysgol (a gynhelir neu annibynnol) sy'n eu derbyn ynghyd â phob cofnod addysgol sy'n ymwneud â'r plentyn, gan gynnwys copïau o'u hadroddiadau disgybl. Nid yw hyn yn berthnasol i ddisgybl sydd wedi bod ar y gofrestr am lai na phedair wythnos.
- Gall Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd roi cyfarwyddiadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i barti gyflwyno i'r tribiwnlys unrhyw ddogfen y gall fod y tribiwnlys ei hangen ac sydd o fewn gallu'r parti i'w chyflwyno.
- Wrth gynnal ymholiadau ar ran Awdurdod Lleol, rhaid i'r ysgol roi cymorth i'r Gwasanaethau Cymdeithasol os gofynnir amdano oni bai y byddai'n 'afresymol ym mhob amgylchiad o'r achos'.
- Gall llysoedd hefyd ofyn am adroddiad ar gofnod ysgol a chymeriad disgybl. Fel arfer, bydd hyn yn cynnwys manylion am gyflawniadau, presenoldeb ac ymddygiad y disgybl. Lle bo'n berthnasol, gellir cyfeirio at iechyd ac amgylchiadau cartref y disgybl yn ogystal â'r ffaith bod unrhyw asiantaethau eraill wedi bod yn rhan o'r broses.
- Mewn achosion eithriadol, gall llys ei gwneud yn ofynnol i'r ysgol gyflwyno cofnodion ysgol disgybl a enwir.

**Beth ddylem ni ei wneud pan fyddwn ni'n derbyn cais gwrthrych am wybvodaeth?**
Byddwn yn gwirio prawf adnabod a phrawf o gyfeiriad cyfredol ar gyfer unrhyw geisiadau. Gellir cadarnhau prawf adnabod drwy ddarparu un o'r canlynol: tystysgrif geni, pasbort neu drwydded yrru. Gellir cadarnhau prawf o gyfeiriad drwy ddarparu un o'r canlynol: bil cyfleustodau, datganiad banc sydd wedi'i ddyddio o fewn y 6 mis diwethaf neu drwydded yrru. Mae defnyddio dulliau gwirio eraill yn dibynnu ar y berthynas â'r ceisydd. Mae angen dogfennau gwreiddiol gan nad yw llungopïau'n

dderbyniol. Dylid anfon dogfennau gwreiddiol yn ddiogel (er enghraifft dosbarthiad a gofnodwyd) a byddant yn cael eu dychwelyd ar unwaith ar ôl eu gwirio.
Os yw'r person sy'n gofyn am y wybodaeth yn berthynas/cynrychiolydd i'r unigolyn dan sylw, yna rhaid i'r perthynas/cynrychiolydd ddarparu caniatâd yr unigolyn i ryddhau eu data personol. Os ydynt wedi'u penodi i weithredu ar ran rhywun o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005, rhaid iddynt gadarnhau eu gallu i weithredu ar eu rhan ac egluro sut mae ganddynt hawl i gael mynediad at eu gwybodaeth. Os ydynt yn rhiant/gwarcheidwad i blentyn dan 16 oed, bydd angen i ni ystyried a all y plentyn roi eu caniatâd.

**Casglu gwybodaeth**

Rhaid inni wirio bod gennym ddigon o wybodaeth i ddod o hyd i'r cofnodion y gofynnwyd amdanynt. Os teimlwn fod angen rhagor o wybodaeth arnom, yna rhaid inni ofyn am hyn ar unwaith. Byddwn yn casglu unrhyw wybodaeth a gedwir â llaw neu'n electronig.
Os ydym wedi nodi gwybodaeth sy'n ymwneud â thrydydd partïon, bydd angen inni ystyried a oes gennym eu caniatâd i'w datgelu ai peidio, neu a ystyrir ei bod yn rhesymol ym mhob amgylchiad i'w datgelu heb ganiatâd.
Cyn rhannu unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â thrydydd partïon, byddwn, lle bo'n bosibl, yn anonymeiddio gwybodaeth sy'n adnabod trydydd partïon lle bo'n briodol.

**Cyhoeddi ein hymateb**

Unwaith y bydd unrhyw ymholiadau ynghylch y wybodaeth a ofynnwyd amdani wedi'u datrys, anfonir copïau o'r wybodaeth ar ffurf barhaol oni bai eich bod yn cytuno fel arall, neu lle byddai'n golygu ymdrech ormodol. Yn yr achosion hyn, dewis arall posibl fyddai caniatáu ichi weld y wybodaeth yn yr Ysgol.
Rhaid inni egluro unrhyw dermau neu dalfyriadau cymhleth sydd wedi'u cynnwys yn y wybodaeth pan gaiff ei rhannu. Oni nodir yn wahanol, efallai y byddwn hefyd yn darparu copi o unrhyw wybodaeth a ddarparwyd yn flaenorol.

**A fyddwn ni'n codi ffi?**

O dan y ddeddfwriaeth Diogelu Data bresennol, nid oes tâl, fodd bynnag, lle mae ceisiadau gan wrthrych data yn amlwg yn ddi-sail neu'n ormodol, yn enwedig oherwydd eu natur ailadroddus, gall yr Ysgol naill ai:

- godi ffi resymol gan ystyried costau gweinyddol darparu'r wybodaeth neu'r cyfathrebu neu gymryd y camau y gofynnwyd amdanynt; neu
- wrthod gweithredu ar y cais.

**Beth yw'r amserlen ar gyfer ymateb i geisiadau gwrthrych am wybodaeth?**

Rhaid i ni ymateb o fewn mis o'r adeg y byddwn wedi derbyn yr holl wybodaeth sydd ei hangen i adnabod y ceisydd a'r wybodaeth y gofynnwyd amdani.

Gellir ymestyn y cyfnod hwnnw am ddau fis arall lle bo angen, gan ystyried cymhlethdod a nifer y ceisiadau.

**A oes unrhyw sail y gallwn ddibynnu arni dros beidio â chydymffurfio â chais gwrthrych am wybodaeth?**

**Cais blaenorol**
Os gwnaed cais gwrthrych am wybodaeth blaenorol, rhaid i ni ymateb dim ond os yw cyfnod rhesymol wedi mynd heibio ers y cais blaenorol. Bydd cyfnod rhesymol yn cael ei bennu yn ôl natur y wybodaeth, yr amser sydd wedi mynd heibio, a nifer y newidiadau sydd wedi digwydd i'r wybodaeth ers y cais diwethaf.

**Esemptiadau**
Mae deddfwriaeth Diogelu Data yn cynnwys nifer o esemptiadau i'n dyletswydd i ddatgelu data personol a gallwn geisio cyngor cyfreithiol os ydym yn ystyried y gallent fod yn berthnasol. Byddai esemptiadau posibl yn cynnwys: gwybodaeth sy'n dod o dan fraint broffesiynol gyfreithiol, gwybodaeth a ddefnyddir at ddibenion ymchwil, hanesyddol ac ystadegol, a chyfeiriadau cyfrinachol a roddir neu a dderbynnir gan yr Ysgol.

**Gweithdrefn gwyno**

Os nad yw gwrthrych y data yn hapus gyda'r ffordd y mae eu cais gwrthrych am wybodaeth wedi'i drin, gallant gwyno drwy'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn y lle cyntaf. Os nad ydynt yn hapus o hyd, gallant gyflwyno cwyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth a/neu'r llysoedd. Bydd y Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn delio ag unrhyw gŵyn ysgrifenedig am y ffordd y mae cais wedi'i drin ac am ba wybodaeth sydd wedi'i datgelu.
Cyswllt – Swyddog Diogelu Data Ysgolion
Ebost schoolDPO@conwy.gov.uk
Post – Swyddog Diogleu Data Ysgolion, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, PO Box 1, Conwy, LL30 9GN

# Cais Gwrthrych am Wybodaeth – Ffurflen Gais

Mae deddfwriaeth Diogelu Data yn rhoi hawl i chi, yr unigolyn (gwrthrych) y cedwir gwybodaeth amdanynt, dderbyn copi o'r wybodaeth honno neu i awdurdodi rhywun i weithredu ar eich rhan i gael y wybodaeth. Llenwch y ffurflen hon os ydych yn dymuno gweld eich data ac yna ei hanfon i un o'r cyfeiriadau isod. Bydd angen i chi hefyd ddarparu **prawf adnabod**. Bydd eich cais yn cael ei brosesu ymhen mis o dderbyn y ffurflen gyflawn, prawf adnabod a phrawf o'ch cyfeiriad, oni bai y cewch wybod yn wahanol.

**Prawf Adnabod:**

Mae'n rhaid i ni gael prawf adnabod a phrawf o'ch cyfeiriad cyn y gallwn ddatgelu data personol. Gallwch brofi pwy ydych drwy ddarparu un o'r canlynol: tystysgrif geni, pasport neu drwydded yrru. Gallwch brofi eich cyfeiriad drwy ddarparu un o'r canlynol: bil gwasanaeth neu gyfriflen banc dyddiedig o fewn y 6 mis diwethaf, neu drwydded yrru.

**Rhan 1**

Rhowch fanylion yr unigolyn y mae'r cais hwn am wybodaeth yn berthnasol iddynt (gwrthrych y data).

| |
|---|
| **Teitl:** Mr Mrs Ms Miss Arall: |
| **Cyfenw/ Enw Teulu:** |
| **Enw(au) Cyntaf:** |
| **Dyddiad Geni:** |
| **Cyfeiriad:**<br><br><br>**Cod Post:** |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfeiriadau Blaenorol:**<br><br><br>**Cod Post:** | | |
| **Rhif(au) Ffôn yn ystod y dydd** | | |

Rwy’n amgáu un o’r dogfennau gwreiddiol canlynol fel prawf adnabod:

Tystysgrif Geni* Pasport* Trwydded Yrru*

Rwy’n amgáu un o’r dogfennau gwreiddiol canlynol fel prawf o fy nghyfeiriad:

Bil Gwasanaeth* (o’r 6 mis diwethaf) Cyfriflen Banc* ( o’r 6 mis diwethaf)

Trwydded Yrru*

Dilëwch fel sy’n briodol*

*Os na allwch gael gafael ar unrhyw un o'r rhain, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data. (manylion cyswllt isod).

**Gwybodaeth bersonol y mae'r cais hwn yn gofyn amdani**

Dywedwch wrthym pa wybodaeth yr ydych eisiau ei gweld, ynghyd ag unrhyw enwau neu ddyddiadau neu fanylion cyswllt sydd gennych - rhowch cymaint o wybodaeth ag y gallwch, a fydd yn ein helpu ni gyda'n chwiliad ac yn ein galluogi ni i ymateb i'ch cais cyn gynted â phosibl. Os yw eich cais yn ymwneud â chofnodion cyflogaeth, cofnodion y gwasanaethau cymdeithasol neu gofnodion addysgol, gadewch y rhan hon yn wag a llenwch un o'r blychau isod.

**Teledu Cylch Cyfyng (TCC)**

Os ydych yn gwneud cais am ddarn o ffilm TCC bydd angen i chi roi dyddiad/amser/lleoliad y recordiad a thystiolaeth hunaniaeth ffotograffig a/neu ddisgrifiad manwl er mwyn ein helpu i ddod o hyd iddo.

**Cofnodion Cyflogaeth**

Os ydych, neu os buoch yn gyflogai i'r Ysgol ac yn dymuno gweld gwybodaeth bersonol yn ymwneud â'ch cyflogaeth, rhowch cymaint o wybodaeth ag y gallwch i'n helpu ni gyda'n chwiliadau ac i ymateb i'ch cais cyn gynted â phosibl.

**Cofnodion Addysg**

Os ydych yn gwneud cais i weld gwybodaeth addysgol benodol, rhowch cymaint o wybodaeth ag y gallwch (yn cynnwys enwau neu ddyddiadau neu fanylion cyswllt) i'n helpu ni gyda'n chwiliadau ac i ymateb i'ch ceisiadau gynted â phosibl.

**Adran 2**

Os ydych **yn gweithredu ar ran rhywun arall** (h.y. yn gweithredu ar ran gwrthrych y data) rhowch eich gwybodaeth chi isod.

Os **NAD CHI** yw gwrthrych y data, ond eich bod yn hytrach yn asiant a benodwyd ar eu rhan, bydd angen i chi ddarparu prawf adnabod ar eich cyfer chi eich hun yn ogystal â gwrthrych y data, a phrawf o'ch hawl i weithredu ar eu rhan.

| |
|---|
| **Teitl:** Mr Mrs Ms Miss Arall – |
| **Cyfenw/Enw Teulu:** |
| **Enw(au) Cyntaf:** |
| **Dyddiad Geni:** |
| **Cyfeiriad:**<br><br><br>**Cod Post:** |
| **Cyfeiriad Ebost:** |
| **Rhif(au) ffôn yn ystod y dydd** |

**Rhowch y prawf adnabod a nodir ar dudalen 1.**

| |
|---|
| Rwy'n amgáu un o'r dogfennau gwreiddiol canlynol fel prawf adnabod:<br><br>Tystysgrif Geni* Pasport* Trwydded Yrru*<br><br>Rwy'n amgáu un o'r dogfennau gwreiddiol canlynol fel prawf o'm cyfeiriad:<br><br>Bil Gwasanaeth* (o'r 6 mis diwethaf) Cyfriflen Banc* ( o'r 6 mis diwethaf)<br><br>Trwydded Yrru*<br><br>Dilëwch fel sy'n briodol* |
| *Os na allwch gael gafael ar unrhyw un o'r rhain, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data. (manylion cyswllt isod). |

| |
|---|
| **Eich perthynas â Gwrthrych y Data** (e.e. rhiant, gofalwr, cynrychiolydd cyfreithiol) |
| Rwy'n amgáu'r dogfennau canlynol fel prawf o'm hawdurdod cyfreithiol i weithredu ar ran gwrthrych y data :<br><br>Llythyr o awdurdod* Pŵer Atwrnai Parhaus *<br><br>Tystiolaeth o gyfrifoldeb rhieiniol * Arall* (rhowch fanylion):<br><br>Dilëwch fel sy'n briodol * |

| |
|---|
| **Datganiad Gwrthrych y Data (Os ydych wedi llenwi Adran 1, yna llenwch y datganiad isod)**<br><br>Rwy'n tystio fod y wybodaeth a roddwyd yn y ffurflen hon yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth ac mai fi yw'r unigolyn y mae'r wybodaeth yn berthnasol iddynt. Rwy'n deall bod dyletswydd ar yr Ysgol i gadarnhau prawf adnabod/prawf o awdurdod ac y bydd efallai yn angenrheidiol iddynt gael rhagor o wybodaeth er mwyn cydymffurfio â'r cais gwrthrych am wybodaeth. |
| **Enw:** |
| **Llofnod:**      **Dyddiad:** |
| **NEU os ydych wedi llenwi Adran 2, llenwch y datganiad isod :** |
| **Unigolyn Awdurdodedig – Datganiad (os yn berthnasol)**<br><br>Rwy'n cadarnhau fy mod wedi fy awdurdodi i weithredu ar ran gwrthrych y data. Rwy'n deall bod dyletswydd ar yr Ysgol i gadarnhau prawf adnabod/prawf o awdurdod ac y bydd efallai yn angenrheidiol iddynt gael rhagor o wybodaeth er mwyn cydymffurfio a'r cais gwrthrych am wybodaeth. |
| **Enw:** |
| **Llofnod:**      **Dyddiad:** |
| ***Rhybudd:*** *bydd unigolyn sy'n cael neu'n ceisio cael gwybodaeth yn anghyfreithlon yn euog o drosedd a gellid eu herlyn .* |

Rwy’n dymuno:

Derbyn y wybodaeth drwy’r post*
Dod i nôl y wybodaeth yn bersonol*
Gweld copi o’r wybodaeth yn unig*
Mynd drwy’r wybodaeth gydag aelod o staff*

Dilëwch fel sy’n briodol *

**Anfonwch eich ffurflen a'ch prawf adnabod drwy’r post at y Pennaeth.**

Bydd yr Ysgol yn cadw'r holl wybodaeth a ddarparwyd ac yn ei rhannu dim ond â'r rhai hynny y mae ganddo hawl gyfreithlon i'w rhannu a nhw. Bydd y wybodaeth yn cael ei chadw dim ond yn unol â'n polisi dargadw a bydd yn cael ei gwaredu mewn modd diogel.